**PWYLLGOR:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**DYDDIAD:** **23 TACHWEDD 2009**
**TEITL:** **CAB SAFE**
**PWRPAS:** **ER GWYBODAETH A CHYMERADWYAETH**
**AWDUR:** **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO**

## HANES

Mae'n deg dweud, yn gyffredinol, bod y diwydiant hacni a hurio preifat o safon derbyniol gydag unigolion cydwybodol yn gweithio yn y diwydiant. Er hynny, mae tystiolaeth bod rhai cerbydau anghyfreithiol yn gweithio ar adegau prysur, ac er ein bod yn ceisio fel gwasanaeth yn mynd ar eu holau, nid yw yn dasg hawdd na syml.

## Y CYNLLUN 'CABSAFE'

Er ceisio cynnig gwell gwasanaeth i'r cyhoedd, o gofio mai ein cyfrifoldeb ni yw 'gwarchod y cyhoedd', argymhellir ein bod yn treialu cynllun sydd wedi gweithio'n llwyddiannus mewn llawer sir yng Nghymru, yn cynnwys sir wledig fel Gwynedd, sef Sir Gaerfyrddin.

Yn y bon, sut mae'r system yn gweithio yw bod unrhyw un sydd a ffon symudol yn gallu galw un rhif penodol, sef 83222 yn achos Caerfyrddin, a bydd neges yma'n cael ei gyrru i'r ffon gyda rhifau y tri cwmni hacni/hurio preifat agosaf a bydd yr unigolyn yna'n gallu cysylltu gydag un o'r 3 rhif yna, yn y sicrwydd y bydd y rhif yn gysylltiedig a cwmni sydd wedi eu trwyddedu gyda Cyngor Gwynedd ac a sydd wedi mynd drwy'r profion angenrheidiol o ran cerbyd neu yrrwr. Mae'r system yn dewis gwahanol rifau yn eu tro, sydd yna'n rhoddi cyfle teg i bob gyrrwr trwyddedig.

Y bwriad felly yw bod y rhai hynny sydd angen defnyddio'r gwasanaeth hacni/hurio preifat yn gallu storio'r rhif yn eu ffon ac felly'r gobaith yw y gallem gael gwared o'r masnach anghyfreithlon. Rhaid tynnu sylw nad oes gan y gweithredwyr anghyfreithlon yr yswiriant angenrheidiol i gludo pobl a does dim archwiliadau wedi eu gwneud i sicrhau diogelwch y cerbyd nac addasrwydd y gyrrwr.

## GWEITHIO'R SYSTEM

Bydd y system yn cael ei redeg gan gwmni allanol arbenigol, ond bydd modd i swyddogion y Cyngor adolygu ac uwchraddio'r system yn ddyddiol, sydd yn sicrhau bod y system yn gyfredol ar bob adeg.

Bydd y system hefyd yn nodi pryd a lle y defnyddiwyd y gwasanaeth, a all roddi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i unrhyw adran o'r Cyngor sydd angen y wybodaeth.

## COST

Mae Gwynedd yn bwriadu lansio'r cynllun yma ar y cyd gyda Cyngor Ynys Mon, a'r gost yw £1036 + TAW am drwydded oddi wrth y cwmni. Bydd hefyd gostau ychwanegol i hysbysebu'r cyhoedd o'r cynllun, drwy osod hysbysebion yn y papurau; ar y radio; posteri; matiau cwrw a.y.y.b. yn hysbysebu'r cyhoedd o'r cynllun ac o'r rhif sydd angen iddynt alw. Rhagwelwn y daw hyn a'r cyfanswm gost yn £2000 yr

awdurdod, ac er ein galluogi i wneud hyn, ac er cieiso sicrhau gwell gwasanaeth o ran y dioglewch a ellid ei gynnig i'r cyhoedd, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn fodlon cyfrannu £2000 tuag at y flwyddyn gyntaf.

Rydym wedi trafod gyda'r diwydiant ynglyn a'r cynllun ac wedi derbyn eu cefnogaeth, ac wedi egluro na fydd cyllid ar gael i ariannu'r cynllun i'r dyfodol, a bydd angen i'r diwydiant ei hun ysgwyddo'r gost.

## AMSERLEN

Er y buasai'n ddelfrydol cael cynllun o'r math yn ei le cyn y Nadolig, yn ymarferol ni fydd hyn yn bosibl a credwn y buasai'n well fod popeth yn ei le cyn gwneud lansiad. Argymhellir felly ein bod yn targedu Ebrill 1af, 2010 fel dyddiad cyntaf y cynllun.

## MONITRO LLWYDDIANT

Ar y funud gallem ond adrodd ar brofiad Caerfyrddin, ble derbyniwyd ymateb da, gyda'r diwydiant ei hun yn gefnogol i'r cynllun am ail flwyddyn. Rydym yn ymwybodol bod cerbydau anghyfreithlon yn gweithredu yng Ngwynedd, a'n gobaith yw y bydd y cynllun yma'n hybu'r cyhoedd i ddefnyddio cerbydau trwyddedig yn unig. Bydd y manteision yma'n cael eu amlygu yn yr hysbysebu.

## ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gweithrediad yma.